

National Guidance
oeapng.info



# Fetio a Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ynghylch agweddau o fetio staff a defnyddio gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n arbennig o berthnasol i ddysgu yn yr awyr agored ac ymweliadau oddi ar y safle, gan gynnwys arosiadau mewn cartrefi a defnyddio darparwyr allanol. Nid yw'n ceisio ymdrin â gweithrefnau recriwtio cyffredinol cyflogwyr nac agweddau eraill o weithrediadau sefydliadau. Yng Nghymru a Lloegr yn unig y mae'n berthnasol.

## Barnu addasrwydd Staff a Gwirfoddolwyr

Dylai gosod oedolyn mewn sefyllfa o ymddiriedaeth broffesiynol gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed fod yn destun proses drylwyr o farnu bob amser sy'n cynnwys eu fetio er mwyn sicrhau eu bod yn addas. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys y lefel o gyfrifoldeb a osodir ar y gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr, gallai hyn gynnwys rhai neu bob un o'r elfennau canlynol:

- Ffurflen gais;
- Geirda;
- Chwiliad ar-lein;
- Cyfweliad;
- Gwiriad DBS;
- Tystiolaeth o gymwysterau a chymhwysedd;
- Sefydlu a hyfforddi;
- Goruchwylio a monitro.

Nid yw gwiriad DBS, ynddo'i hun, yn unrhyw warant o addasrwydd unigolion i weithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Hefyd, mae amgylchiadau lle nad yw'n angenrheidiol na'n addas i fynnu bod gwiriad DBS yn ofynnol.

## Gwiriadau DBS

Mae dwy brif swyddogaeth i wiriad DBS:

- Gwirio a yw rhywun wedi cael ei wahardd rhag gweithio mewn 'gweithgaredd a reoleiddir' gyda phlant neu oedolion;
- Helpu cyflogwr i benderfynu ar addasrwydd rhywun i weithio mewn rôl benodol.

Mae sawl lefel o wiriadau DBS

- Mae gwiriad sylfaenol yn dangos collfarnau heb eu disbyddu a rhybuddion amodol o dan amodau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974;
- Mae gwiriad safonol yn dangos collfarnau wedi eu disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddion, ceryddau a rhybuddion terfynol;
- Mae gwiriad manylach yn dangos yr un peth â gwiriad safonol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ddelir gan yr heddlu sy'n berthnasol yn eu barn hwy;
- Mae gwiriad manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig yn dangos yr un fath â gwiriad manylach, yn ogystal ag a yw'r ymgeisydd yn y rhestr o bobl a waherddir yn gyfreithlon rhag gweithio gyda phlant a/neu grwpiau eraill agored i niwed.

Gall unrhyw un ymgeisio am wiriad sylfaenol iddynt eu hunain, a gall cyflogwr ofyn iddynt wneud hynny. Caiff cymhwysedd ar gyfer y lefelau eraill ei gyfyngu gan y gyfraith, a dim ond cyflogwyr a all wneud ceisiadau. Yn gyffredinol:

- Mae gwiriadau safonol ar gyfer galwedigaethau mewn cyllid, y gyfraith, etc;
- Mae gwiriadau manylach ar gyfer addysg a gofal cymdeithasol;
- Mae gwiriadau manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig i'r rheini mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Caiff gweithgaredd a reoleiddir ei ddiffinio gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 a'i ddiwygio gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae penderfynu a yw rhywun yn gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant yn dibynnu ar y canlynol:

- Mae weithgaredd maent yn ei gyflawni a pha mor aml maent yn gwneud hynny;
- Lle maent yn gweithio a pha mor aml maent yn gweithio yno;
- Yng Nghymru, a ydynt yn gweithio mewn swydd benodol.

Mae gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion yn cynnwys gofal iechyd, gofal personol a gwaith cymdeithasol.

Mae'r DBS wedi cynhyrchu taflenni canllawiau sy'n esbonio cymhwysedd ar gyfer yr amrywiol lefelau o wiriad. Mae'r rhain ar gael ar
www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance

## Gweithgaredd a Reoleiddir

Dylai fod yn ofynnol i unrhyw un a ddewisir i gymryd rhan mewn gweithgaredd â reoleiddir gyda phobl ifanc neu oedolion agored i niwed dderbyn gwiriad DBS manylach, gyda gwiriad rhestr o bobl a waharddwyd, fel rhan o'u proses recriwtio. Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n defnyddio'r unigolyn yw penderfynu a yw rôl benodol o fewn diffiniad cyfreithiol gweithgaredd a reoleiddir.

Nod y canllawiau canlynol yw helpu i wneud y penderfyniad hwnnw, ond nid yw'n gyngor cyfreithiol.

Mae'r diffiniad llawn o weithgaredd a reoleiddir i'w weld yn Atodlen 4 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 fel y'i diwygir gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, ac mae canllawiau manwl y llywodraeth ar gael ar
www.gov.uk/government/publications/dbs-guidance-leaflets

Yn syml, gall unigolyn fod yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir naill ai trwy'r hyn maent yn ei wneud (gweithgaredd a ddiffinir) neu lle maent yn gweithio (sefydliad penodedig).

### Gweithgareddau diffiniedig

Mae gweithareddau a ddiffinir yn cynnwys y canlynol pan wneir hwy yn 'aml neu yn ddwys' (gweler diffiniadau isod):

- Unrhyw ffurf o addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, goruchwylio neu ofalu am blant (ond gweler 'Gweithgaredd a Reoleiddir o dan Oruchwyliaeth' isod, am eithriadau);
- Darparu cyngor neu ganllawiau sy'n ymwneud â'u llesiant i blant;
- Gyrru cerbyd nad yw ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo plant a'u gofalwyr neu oruchwylwyr.

Mae gweithgareddau diffiniedig yn cynnwys y canlynol hefyd hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn cael ei gyflawni unwaith yn unig:

- Gofal iechyd a ddarperir gan, neu sydd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol gweithiwr proffesiynol gofal iechyd a reoleiddir.
- Gofal personol sy'n golygu cymorth corfforol (neu sy'n gofyn am annog gyda goruchwyliaeth, cyngor neu hyfforddiant) gyda bwyta, yfed, ymolchi, gwisgo, a mynd i'r toiled oherwydd rhesymau'n ymwneud ag oedran, salwch neu anabledd.

### Gweithio mewn Sefydliad Penodedig

Mae sefydliadau penodedig yn cynnwys:

- Ysgolion a sefydliadau addysgol eraill sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg lawn-amser i blant;
- Unedau Cyfeirio Disgyblion ac academïau darparu amgen;
- Ysgolion meithrin;
- Cartrefi plant a chanolfannau plant;
- Ysbytai plant, cartrefi gofal a gwasanaethau cadw;
- Lleoliadau gofal plant.

Mae unrhyw waith (nid dim ond gweithgareddau a ddiffinir) a gyflawnir yn aml neu'n ddwys yn un o'r mathau penodedig o sefydliad, mewn cysylltiad â dibenion y sefydliad hwnnw, sy'n rhoi cyfle i berson gael cyswllt â phlant, yn weithgaredd a reoleiddir. Fodd bynnag, os nad yw gwaith o'r fath ond yn golygu darparu gwasanaethau achlysurol neu dros dro, yna nid yw hwn yn weithgaredd a reoleiddir.

### Yn Aml neu'n Ddwys

Ystyr 'yn aml' yw yr un person yn ymwneud â'r gweithgaredd unwaith yr wythnos neu fwy.

Ystyr 'yn ddwys' yw yr un person yn ymwneud â'r gweithgaredd ar bedwar neu fwy o ddyddiau mewn cyfnod o 30 diwrnod (neu hyd yn oed unwaith yn unig) dros nos rhwng 2am a 6am, lle bo cyfle am gyswllt wyneb yn wyneb gyda phlant.

**Gweithio o dan Oruchwyliaeth**

Dim ond i'r rhain mae'r eithriad canlynol yn berthnasol:

- Gwirfoddolwyr (mewn unrhyw sefydliad);
- Staff a delir **nad** ydynt yn gweithio mewn sefydliad penodedig (er enghraifft, gweithiwr ieuenctid a delir – lle nad yw clwb ieuenctid yn sefydliad penodedig).

NID yw'n berthnasol i staff cyflogedig yn gweithio mewn sefydliad penodedig.

I berson o'r fath, nid yw addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, goruchwylio a gofalu am blant yn weithgaredd a reoleiddir os ydynt, yn rheolaidd, o dan oruchwyliaeth o ddydd i ddydd gan berson arall sy'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir (ac felly wedi eu fetio'n briodol). Rhaid i'r oruchwyliaeth o ddydd i ddydd fod yn rhesymol o dan bob amgylchiadau er mwyn diogelu'r plant o dan sylw. Mae canllawiau statudol gan Adran Addysg Lloegr (DfE) ar gael ar www.gov.uk/government/publications/supervision-of-activity-with-children.

## Penderfynu a yw Rhywun yn Ymwneud â Gweithgaredd a Reoleiddir

Dylai sefydliadau ateb y cwestiynau canlynol er mwyn penderfynu a yw unrhyw oedolion sy'n ymwneud ag ymweliad yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir ac y dylent felly gael gwiriad DBS manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig.

1. A fyddant yn darparu gofal iechyd neu ofal personol?

   Os felly, bydd y person yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir.
2. A yw'r sefydliad yn 'sefydliad a ddiffinir', AC a fyddant yn gweithio naill ai'n 'aml' neu'n 'ddwys', AC a fyddant yn cael y cyfle i ddod i gyswllt â phlant?

   Os felly, bydd y person yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir pa bynnag math o waith maent yn ei wneud, oni bai eu bod yn wirfoddolwr o dan oruchwyliaeth (gweler cwestiwn 4).
3. A fyddant yn gwneud unrhyw un o'r canlynol 'yn aml' neu 'yn ddwys':
   a. Unrhyw ffurf o addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, goruchwylio, neu ofalu am blant, oni bai o dan oruchwyliaeth (gweler cwestiwn 4)?
   b. Darparu cyngor neu ganllawiau i blant yn ymwneud â'u llesiant?
   c. Gyrru cerbyd na ddefnyddir ond i gludo plant a'u gofalwyr neu oruchwylwyr?

   Os felly, bydd y person yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir.
4. Os yw'r eithriad ar gyfer gweithgaredd o dan oruchwyliaeth yn berthnasol, a fydd goruchwylio addas ar waith?

   Dyletswydd y sefydliad yw penderfynu beth sy'n ffurfio goruchwyliaeth briodol, ond rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau statudol a dylent ystyried y ffactorau canlynol:
   - Oedrannau'r plant, gan gynnwys a oes gwahaniaethau mawr yn eu hoedrannau;
   - Nifer o blant y mae'r unigolyn yn gweithio gyda hwy;

- A oes gweithwyr eraill yn helpu edrych ar ôl y plant hynny neu beidio.
- Natur gwaith yr unigolyn;
- Pa mor agored i niwed yw'r plant;
- Faint o weithwyr y byddai pob gweithiwr goruchwylio yn eu goruchwylio.

Er enghraifft:

- Nid yw gwirfoddolwr sy'n ymwneud yn achlysurol â gosod a thynnu i lawr wersyll ar safle ysgol ond nad yw'n ymwneud ag addysgu, hyfforddi, cyfarfwyddo, goruchwylio na gofalu am blant, mewn gweithgaredd a reoleiddir.
- Nid yw gwirfoddolwr sy'n hyfforddi canŵio yn rheolaidd i ysgol mewn gweithgaredd a reolir os ydynt yn gweithio o dan oruchwyliaeth athro, ond byddent mewn gweithgaredd a reoleiddir os nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n addas (lle'r ysgol yw penderfynu beth sy'n ffurfio goruchwylio addas – nid yw o angenrheidrwydd yn golygu presenoldeb parhaus goruchwyliwr);
- Mae hyfforddwr canŵio a gyflogir ac a delir gan ysgol i gynnal sesiwn unwaith yr wythnos mewn gweithgaredd a reoleiddir hyd yn oed os ydynt yn cael eu goruchwylio;
- Nid yw hyfforddwr canwio a gyflogir ac a delir gan ysgol i gynnal sesiwn unwaith y mis mewn gweithgaredd a reoleiddir;
- Mae gwirfoddolwr a ddefnyddir gan ysgol i ddarparu gofal personol i ddisgybl anabl yn ystod ymweliad preswyl unnos mewn gweithgaredd a reoleiddir hyd yn oed os cânt eu goruchwylio.
- Mae gwirfoddolwr a ddefnyddir gan ysgol i ddarparu goruchwyliaeth dros nos o blant yn ystod ymweliad preswyl unnos mewn gweithgaredd a reoleiddir.

**Enghreifftiau pellach**

1. Mae amryw o wirfoddolwyr yn ymwneud â goruchwylio ymweliad am y diwrnod i lan y môr. Dyma'r unig adeg y byddant yn helpu gweithio gyda phlant y mis hwn.

   Mae diffiniad y gweithgaredd yn berthnasol ond nid yw'n unol â'r amodau aml a dwys, felly nid yw hwn yn weithgaredd a reoleiddir.

2. Mae arbenigwr lleol ar fyw yn y gwyllt yn gwirfoddoli gweithio gyda grŵp mewn llecyn Ysgol Goedwig ysgol bob pnawn Mercher am y chwe wythnos nesaf i ddarparu rhai gweithgareddau ymestyn. Bydd yr athro dosbarth yn bresennol yn y sesiynau bob amser.

   Mae'r diffiniad gweithgaredd yn berthnasol ac mae'n unol â'r amod aml felly rhaid i'r prifathro benderfynu a fydd yr athro dosbarth yn goruchwylio'r gwirfoddolwr yn briodol. Gan fod yr athro dosbarth yn bresennol bob amser byddai'n gwbl dderbyniol penderfynu nad yw hyn yn weithgaredd a reoleiddir.

3. Mae rhiant, sy'n dal cymhwyster cymorth cyntaf, yn gwirfoddoli cynorthwyo ysgol eu plentyn gydag ymweliadau yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn o help gwirioneddol oherwydd mae rhai o'r athrawon nad ydynt wedi cael hyfforddiant addas mewn cymorth cyntaf.

   Mae diffiniad y gweithgaredd yn berthnasol os bydd y rhiant yn ffurfio rhan o'r tîm goruchwylio hefyd. Gall yr amod 'aml' fod yn berthnasol os yw'n ymuno'n rheolaidd ag ymweliadau. Fodd bynnag, gallai'r eithriad goruchwylio fod berthnasol, felly os yw'r prifathro'n penderfynu y bydd staff yr ysgol yn goruchwylio'r rhiant yn briodol, yna nid yw'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir (ar y dealltwriaeth nad yw'n darparu

gwarchodaeth cymorth cyntaf mewn argyfwng, na gofal iechyd na gofal personol).

4. Mae partner arweinydd trip sgïo ysgol am wythnos i Awstria yn mynd fel cynorthwyydd.

   Mae diffiniad y gweithgaredd yn berthnasol, ac mae'r amod dwys yn berthnasol, felly rhaid i'r prifathro benderfynu a fydd arweinydd yr ymweliad yn eu goruchwylio'n briodol. Gan fod hwn yn ymweliad preswyl lle gallai cynorthwywyr fynd i mewn i ystafelloedd gwely plant, byddai'n synhwyrol penderfynu a yw hyn yn weithgaredd a reoleiddir a chael gwiriad DBS manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig.

5. Mae gan ysgol wirfoddolwr sy'n helpu'r athro dosbarth blwyddyn 6 i fynd â grŵp i'r baddonau nofio lleol bob wythnos.

   Mae diffiniad y gweithgaredd yn berthnasol a hefyd yr amod 'aml', felly mae angen i'r prifathro benderfynu a fydd yr athro yn oruchwylio'n briodol. Bydd y penderfyniadau yn dibynnu ar ffactorau fel cynllun yr ystafelloedd newid yn y pwll, ond gan fod y gweithgaredd hwn yn rhoi cyfleoedd i fod mewn cysylltiad â'r plant tra byddant yn newid, byddai'n arferol penderfynu bod hyn yn weithgaredd a reoleiddir a chael gwiriad manylach DBS gyda gwiriad rhestr waharddedig.

6. Mae gwirfoddolwr yn dod ar drip diwrnod i ddarparu cymorth 1:1 i blentyn gydag anghenion arbennig sydd angen help gyda bwyta amser cinio.

   Mae'r person hwn yn ymwneud mewn gweithgaredd a reoleiddir oherwydd mae'n darparu gofal personol. Nid yw'r prawf 'aml' a 'dwys' a'r canllawiau goruchwylio statudol yn berthnasol yn achos gofal personol.

7. Mae ysgol yn mynd ar daith bws o amgylch Ewrop a bydd yn defnyddio'r bws bob dydd yn ystod y daith wythnos.

   Mae diffiniad y gweithgaredd yn berthnasol a hefyd yr amod 'dwys' felly mae hwn yn weithgaredd a reoleiddir (nid yw'r canllawiau goruchwylio statudol yn berthnasol i yrru). Cyfrifoldeb y cwmni bws yw gwirio'r gyrrwr, ond byddai'n arfer dda i'r ysgol gadarnhau hyn fel rhan o'r broses archebu.

8. Mae ysgol yn defnyddio rheini yn achlysurol i helpu cludo plant i ddigwyddiadau yn eu ceir eu hunain.

   Os yw'r ysgol yn trefnu'r drafnidiaeth hon gan ddefnyddio rhieni fel cynorthwywyr, yna byddai'r gweithgaredd yn cael ei ddosbarthu fel un a reoleiddir mewn unrhyw un o ddwy ffordd:

   a. Os yw'r rhiant ar ei ben ei hun yn y car gyda phlant, yna gellir dadlau bod elfen o oruchwylio plant, ac felly mae hyn yn unol â diffiniad y gweithgaredd.
   b. Mae gyrru cerbyd na ddefnyddir ond ar gyfer cludo pobl ifanc o dan gytundeb gyda'r ysgol neu'r athro hefyd yn unol â diffiniad y gweithgaredd.

   Y ffactor allweddol yw a yw'r un rhiant yn cludo plant yn 'aml' neu'n 'ddwys'. Os ydyw, yna mae hyn yn weithgaredd a reoleiddir, os nad ydyw, nid yw'n weithgaredd o'r fath.

   Os yw'r rhieni eu hunain yn gwneud trefniadau i'w plant gael eu cymryd i leoliad neu ddigwyddiad yng ngheir ei gilydd, yna mae hyn yn drefniant preifat ac nid yw'n weithgaredd a reoleiddir waeth pa mor aml neu ddwys y'i cyflawnir.

Nid fetio a gwiriadau DBS yw'r unig faterion i'w hystyried wrth drefnu ceir preifat i gludo pobl ifanc.  Am gyngor manylach gweler dogfen Canllawiau Cenedlaethol OEAP 4.5c "Trafnidiaeth mewn Ceir Preifat"

## Ymweliadau Cyfnewid ac Arosiadau mewn Cartrefi

Gweler Atodiad D ("Teuluoedd sy'n Lletya – Arosiadau mewn Cartrefi yn ystod Ymweliadau Cyfnewid") o ganllawiau statudol Adran Addysg Lloegr i ysgolion a cholegau "Keeping Children Safe in Education 2022", sydd ar gael ar: www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education.

Pan fo sefydliad yn trefnu i deuluoedd roi llety i bobl ifanc yn ystod ymweliad (gan gynnwys os yw'n defnyddio darparwr trydydd parti i wneud y trefniadau), mae ganddo ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu gosod mewn cartrefi addas ac yn cael eu diogelu.  Am ganllawiau pellach ar beth ddylid ei gynnwys mewn gweithdrefn fetio i deuluoedd sy'n lletya gweler dogfen Canllawiau Cenedlaethol OEAP 7.1f "Exchanges and Homestays".

Rhaid i'r sefydliad benderfynu a ddylai gwiriadau DBS ffurfio rhan o'r broses o fetio arosiadau mewn cartrefi. Dylid gwneud hyn gan ddefnyddio'r egwyddorion a amlinellir uchod, gan ystyried natur y trefniadau aros mewn cartrefi – rhoddir rhai enghreifftiau o drefniadau cyffredin isod.

Ni chaiff y gweithgaredd o letya ei gyflawni mewn sefydliad penodol ac felly nid yw bod â mynediad at bobl ifanc yn ddigon ynddo'i hun i olygu'r angen am wiriad DBS. Rhaid i'r sefydliad benderfynu a yw'r teulu sy'n lletya yn ymwneud ag un o'r gweithgareddau diffiniedig ar ei ran.

**Trefniadau Nodweddiadol ar gyfer Arosiadau mewn Cartrefi:**

Lletywyr sy'n darparu goruchwyliaeth

Lle bo teuluoedd sy'n lletya yn darparu goruchwyliaeth yn ogystal â llety (fel sy'n digwydd yn aml), yna mae hyn yn weithgaredd a reoleiddir a dylai'r sefydliad gael tystysgrif DBS fanylach gyda gwybodaeth am restr waharddedig i'r oedolyn neu'r oedolion sy'n gyfrifol am y goruchwyliaeth, oni bai fod rheswm da i beidio â gwneud hynny (ee os yw'r trefniant ar gyfer "gweithgaredd a reoleiddir o dan oruchwyliaeth").

Lletywyr sy'n darparu Gwely a Bwyd yn unig

Lle nad yw teuluoedd sy'n lletya ond yn darparu gwely a bwyd i bobl ifanc sy'n parhau o dan oruchwyliaeth a gofal o bell staff sefydliad, a lle nad oes dim disgwyliad o 'addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, goruchwyliaeth na gofal', nid yw'n weithgaredd a reoleiddir. Bydd hyn yn bod lle bo'r teulu sy'n lletya, er enghraifft, yn gweithredu yn yr un ffordd â hostel neu westy.

Lletywyr sy'n darparu 'Gweithgaredd a Reoleiddir o dan Oruchwyliaeth'

Pan fo teuluoedd sy'n lletya yn cymryd rôl ofalu neu oruchwylio yna mae hyn yn gyfystyr â diffiniad y gweithgaredd ac, oherwydd fod yr oruchwyliaeth dros nos, mae hefyd yn unol â'r prawf 'dwys'. Yn yr achos hwn, rhaid i'r sefydliad benderfynu a all hyn fod yn 'weithgaredd a reoleiddir o dan oruchwyliaeth' nad yw'n gofyn am wiriadau DBS (fel yr esboniwyd eisoes).  Gan fod y gweithgaredd yn digwydd dros

nos, ac yng nghartref y teulu sy'n lletya, yna mae hyn yn annhebygol o fod yn wir, ond gall fod yn bosibl lle bo teuluoedd a'u cartrefi yn adnabyddus i'r ysgol ac y gall staff wneud ymweliadau goruchwylio rheolaidd.

Lletya fel Trefniant Preifat

Mae'r penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r arhosiad mewn cartref yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir yn dibynnu ar a yw'r teuluoedd sy'n lletya yn gweithredu ar ran y sefydliad (neu ddarparwr trydydd parti) neu a ydynt yn gweithredu ar ran rhieni'r person ifanc mewn trefniant preifat. Byddai penderfyniad fod lletya yn drefniant preifat yn cael ei gefnogi gan ohebiaeth rhwng y ddau deulu – megis perthynas 'ffrind-llythyr' rhwng y bobl ifanc, neu ddeialog rhwng rhieni. Nid yw trefniant preifat o lai na 28 diwrnod yn weithgaredd a reoleiddir. Y tu hwnt i'r amser hwn gellid ei ystyried fel maethu preifat ac felly dylid hysbysu'r awdurdod lleol.

### Pwy mewn Arhosiad Cartref ddylai gael Gwiriad DBS?

Pan benderfynir – wrth ddefnyddio'r canllawiau uchod – y dylai gwiriadau DBS ffurfio rhan o'r broses o fetio arosiadau mewn cartrefi, rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch pwy ddylai gael y gwiriadau hyn.

Y cam cyntaf yw darganfod pa oedolion fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r plant a fydd yn ymweld yn ystod yr arhosiad ym mhob cartref (mewn rhai cartrefi gallai hyn fod yn un person yn unig). Mae'r oedolion hyn yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir a dylid cael tystysgrif DBS fanylach gyda gwybodaeth am restr waharddedig ar eu cyfer. Dylai'r sefydliad sicrhau bod yr oedolion hyn yn deall eu cyfrifoldebau goruchwylio, sy'n cynnwys goruchwylio unrhyw oedolion eraill a allai fod â mynediad at y plant. Nid yw goruchwylio yn golygu o angenrheidrwydd bod gyda'r plant drwy'r adeg; gall fod yn anuniongyrchol ac o bell pan fo hynny'n addas.

Y cam nesaf yw defnyddio gwybodaeth sydd ar gael a doethineb proffesiynol i benderfynu a ddylai unrhyw un arall 16 oed neu'n hŷn sy'n byw mewn cartref lletywr neu sy'n ymweld yn rheolaidd â'r lle, gaffael tystysgrif DBS. Er enghraifft, lle bo sefydliad yn adnabod teulu'n dda ac â hyder ynddynt, efallai y penderfynir nad oes angen cyflawni gwiriadau ar neb arall. Lle nad yw hyn yn wir, neu lle bo gwybodaeth yn awgrymu y byddai gwiriadau ychwanegol yn ddefnyddiol, efallai y penderfynir ehangu'r gwiriadau i eraill. Ni ellir caffael gwybodaeth am restr waharddedig ar gyfer yr oedolion ychwanegol hyn, gan nad ydynt yn ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir.

Dylai fod yn ofynnol i'r oedolion sy'n gyfrifol am oruchwylio ddatgan oes unrhyw un y maent yn byw gyda hwy, neu sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd, wedi cael ei wahardd rhag gweithio gyda phlant. Os yw hyn yn wir, bydd yr oedolion yn awtomatig yn cael eu 'anghymhwyso trwy gysylltiad' o ofal plant mewn lleoliad domestig eu hunain, ac felly rhag lletya arhosiad mewn cartref.

Nid yw gwiriadau DBS yn bosibl ar deuluoedd tramor ac felly rhaid defnyddio dulliau eraill ar gyfer fetio teuluoedd sy'n lletya dramor. Cyfeiriwch at ddogfen Canllawiau Cenedlaethol OEAP 7.1f "Exchanges and Homestays" am fwy o wybodaeth.

**‘Anghymhwyso trwy Gysylltiad’**

O dan Reoliadau Gofal Plant (Anghymwyso) 2018, mae person sy’n byw yn yr un cartref â rhywun sydd wedi’i wahardd rhag gweithio gyda phlant yn cael ei wahardd rhag darparu gofal plant mewn lleoliad domestig ‘trwy gysylltiad’. Gall rhywun sydd wedi ei anghymwyso fel hyn wneud cais i Ofsted am hawlildiad.

Lle bo’r person yn gyfrifol am ofal plant a ddarperir mewn lleoliad domestig (megis aros mewn cartref), dylai sefydliadau gael system i wirio a effeithir ar rywun fel hyn.

## Myfyrwyr ar Leoliad

Dylai myfyrwyr sydd ar leoliad lle gallant yn ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir fod wedi profi gwiriad DBS a ysgogwyd gan y brifysgol neu’r coleg y maent yn ei fynychu. Dylai’r sefydliad lletya gadarnhau hyn gyda’r brifysgol neu’r coleg cyn derbyn myfyriwr ar leoliad.

## Staff nad ydynt mewn Gweithgaredd a Reoleiddir

Mae’n ofynnol yn gyfreithiol i gael gwiriad DBS manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig ar gyfer unrhyw un sy’n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir.

Ni chaniateir yn gyfreithiol i sefydliadau wneud cais am wiriad DBS manylach gyda gwiriad rhestr fanylach ar gyfer unrhyw un nad yw’n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir ond **gallant** wneud cais am wiriad DBS manylach heb wiriad rhestr waharddedig, neu gellid gofyn iddynt gael gwiriad sylfaenol DBS eu hunain a’i rannu gyda’r sefydliad.

Dylai penderfyniad i gael naill ai wiriad manylach neu sylfaenol ar gyfer rhywun nad yw’n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir ddibynnu’n gyntaf ar bolisi’r cyflogwr, ac wedyn ar asesiad o’r risg o niwed i blant. Mae llawer o amgylchiadau lle mae’n rhesymol i beidio â chael gwiriad DBS.

Mae’n bwysig cofio nad yw gwiriad DBS, os bernir bod angen un, ond rhan o’r broses o fetio rhywun a fydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

## Defnyddio Darparwyr Trydydd Parti

Mae darparwyr allanol yn destun yr un gofynion cyfreithiol a rhaid iddynt gael gwiriadau DBS manylach gyda gwiriad rhestr waharddedig i’w staff sy’n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir. Fodd bynnag, mae llawer o ddarparwyr nad ydynt yn ‘sefydliadau penodedig’, ac efallai na fydd eu staff yn ymwneud â’r gweithgareddau a ddiffinir, ac felly na fydd yn ofynnol iddynt gael gwiriad DBS manylach, ac efallai na fyddant yn gymwys hyd yn oed am wiriad o’r fath.

Dylai Arweinwyr Ymweliadau sylweddoli felly nad yw’n rhesymol disgwyl y bydd pob gweithiwr cyflogedig darparwr trydydd parti, gan gynnwys rhai a allai ddod i gyswllt â phlant, wedi cael gwiriad DBS.

Dylai darparwyr, wrth gwrs, ddal i fod â system recriwtio gadarn, gan gynnwys fetio addas, ar gyfer pawb o’u staff a’u gwirfoddolwyr.

Gweler dogfen Canllawiau Cenedlaethol OEAP
[4.4g "Selecting External Providers and Facilities"]

## Costau Gwiriadau DBS

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn codi tâl am y mwyafrif o wiriadau, ond does dim tâl am swyddi gwirfoddolwyr. Dylai lletywyr arosiadau cartref nad ydynt yn cael eu talu am eu gwaith fel lletywyr gymhwyso fel gwirfoddolwyr.

Fodd bynnag, rhaid i wiriadau manylach gael eu prosesu gan gorff cofrestredig, ac mae sefydliadau o'r fath yn arferol yn codi tâl fesul person am y gwasanaeth hwn, gan gynnwys am wirfoddolwyr. Mae taliadau a'r lefel o wasanaeth yn amrywio rhwng cyrff cofrestredig. Gall y taliadau cronnol fod yn sylweddol wrth wirio nifer mawr o wirfoddolwyr, megis wrth drefnu arosiadau cartref ar gyfer grŵp mawr.

Gall sefydliad wneud cais i ddod yn gorff cofrestredig os yw'n bodloni'r amodau cofrestru, sy'n cynnwys prosesu dros 100 o geisiadau y flwyddyn. Mae taliadau ynghlwm â dod yn gofrestredig ond dim tâl wedyn am wiriadau gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, bydd gweinyddu'r broses gan y corff cofrestredig yn golygu amser a chostau staff gweinyddol.